Grid awgrymiadau ar gyfer astudiaethau a gweithgareddau i ysgolion yn seiliedig ar Warchodfa Natur Cemlyn			**Allwedd i'r symbolau:** D = Daearyddiaeth Gw = Gwyddoniaeth S = Saesneg H = Hanes AG = Addysg Grefyddol YNGC = Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Rhaglen astudio	**Diben y sesiwn**	**Gweithgaredd**	**Yr Adnoddau sydd eu Hangen**
Ble mae'r safle a sut mae'n cysylltu ag ardaloedd eraill (D)	Gosod Cemlyn yn ei gyd-destun daearyddol	Canfod pa mor bell ac i ba gyfeiriad mae Cemlyn o'r ysgol, y llwybr i gyrraedd yno a'r nodweddion tirluniol amlwg o'i amgylch. Gweld ble maent ar y safle gan ddefnyddio Gorsaf B_er yr Wylfa, ynysoedd y Skerries, ffermydd gwynt, adeiladau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol etc.	Map lleoliad a llun o'r awyr
Pam fod yr ardal fel hyn (D)	Deall Cemlyn fel uned ddaearyddol	Disgrifio'r gyfres o ddigwyddiadau a arweiniodd at ffurfio Cemlyn, e.e. rhewlif (egluro am y graeanfryniau), effeithiau gwynt a thonnau, rheolaeth ar y tir, adeiladu argae'r lag_n etc. (gweler H)	Cyfres o ddiagramau a map lleoliad
Pa brosesau sy'n cyfrannu at ei ddatblygiad (D)	Gweld beth mae YNGC yn ei wneud i reoli'r safle, gwarchod y cynefin a sicrhau mwy o werth i ymwelwyr. Trafod materion mynediad a gwybodaeth.	Disgrifio gwaith cadwraeth a materion mynediad (yn cynnwys y rhai perthnasol i anabledd), edrych ar banelau gwybodaeth a hysbysiadau. Trafod syniadau ar gyfer gwella Cemlyn i'r cyhoedd ac i ysgolion.	Cop_au o daflen Cemlyn YNGC a thaflen yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar deithiau cerdded o amgylch Cemlyn
Beth ellir ei ddysgu am gynefinoedd a'r modd maent yn newid (Gw)	Arsylwi'r amrywiaeth o gynefinoedd a deall y gwahaniaethau rhwng un ardal ac ardal arall. Dangos newid gofodol mewn cynefin, e.e. ar hyd llinell benodol ***(parthu).*** Egluro sut mae cynefin yn newid dros amser	Y disgyblion i wneud ***trawslun*** o'r llystyfiant a'r anifeiliaid yn naill ai a) canol Trwyn Cemlyn i'r lan; b) ymyl y lag_n a thros yr esgair i'r môr; neu c) top y traeth yn Nhraeth y Trwyn i'r môr. Bydd raid i'r disgyblion adnabod a nodi beth maent yn gael hyd iddo ym mhob sampl (cylch) ar hyd trawslun wedi'i fesur mewn ffordd arbennig. Gellir cymharu cynefinoedd a thrafod	Cylchoedd, tâp / llinyn mesur, siartiau adnabod, dalennau gwaith a chlipfyrddau

	(olyniaeth).	datblygiad y llystyfiant.	
Pa blanhigion ac anifeiliaid geir hyd iddynt mewn gwahanol gynefinoedd (Gw)	Adnabod y rhywogaethau allweddol sy'n byw yng nghynefinoedd nodweddiadol Cemlyn e.e.: esgair o gerrig mân lag_n hallt glan y môr Rhoi enghreifftiau o'r rhywogaethau sydd wedi addasu i'w hamgylchedd	Tynnu sylw at y prif blanhigion a rhywogaethau a welwyd. Sôn am **fresych y môr** fel rhywogaeth sy'n ffynnu mewn amgylchedd llym fel y cerrig mân. Casglu samplau o dd_r o'r môr a'r lag_n i gymharu'r rhywogaethau sy'n byw ynddynt. Defnyddio siartiau adnabod i adnabod **infertebratiaid.** Ymweld â'r safle gwylio **morwenoliaid** (yn ystod misoedd yr haf) a gwylio'r adar. Gofyn i wardeniaid YNGC, os yn bresennol, i dynnu sylw at y gwahanol rywogaethau a nodi nifer y nythod etc. **Cofnodi beth y ceir hyd iddo ym mhob cynefin a thynnu lluniau i wahanol rywogaethau.**	Siartiau adnabod y Cyngor Astudiaethau Maes, dalennau gwaith a chlipfyrddau, chwyddwydrau, sbienddrychau, rhwydi a hambyrddau ar gyfer casglu infertebratiaid.
Beth yw ***ecosystemau*** a ***chadwyni bwyd*** (Gw)	Deall y rhyngberthynas rhwng y rhywogaethau sy'n byw yng Nghemlyn	Dangos cadwyn fwyd yng Nghemlyn drwy ddefnyddio'r disgyblion i gynrychioli'r gwahanol rywogaethau yn gorfforol. Dangos beth sy'n digwydd i'r gadwyn fwyd o dynnu un rhywogaeth allan drwy dynnu un disgybl allan. Egluro ecosystem fel cymuned o gadwyni bwyd.	Enghraifft o gadwyn fwyd yng Nghemlyn (ee. Hebog Tramor – Morwennol – Llymr_en – Plancton). Pelen o wlân neu linyn.
Pa straeon sydd i'w dweud am Gemlyn (S) (H)	Sylwi ar nodweddion a gwrthrychau wrth gerdded a'u cysylltu â hanes Cemlyn. Annog creadigrwydd y disgyblion drwy eu cael i ysgrifennu stori.	Creu ***llinell stori*** gan ddefnyddio darn o bren y gellir clymu gwahanol deganau arno i gynrychioli'r gwahanol bethau a welwyd ar y daith / ymweliad. Fel gr_p, llunio stori sy'n cysylltu'r teganau i gyd gyda'i gilydd. Yn y dosbarth, gellir ymestyn hyn i gynnwys actio'r stori hefyd.	Teganau gêm Monopoly a theganau / gwrthrychau eraill i gynrychioli'r pethau a welir ar y siwrnai. Priciau pren. Papur i dynnu llun beth a ddarganfyddir ac i ysgrifennu stor_au.

Sut oedd bywyd y bobl a arferai fyw yng Nghemlyn yn y gorffennol? Pwy oedd **Capten Hewitt** (H) (S)	Dysgu am hanes yr ardal drwy ddychmygu bywyd bob dydd y bobl leol yn y gorffennol. Dysgu am Gapten Hewitt a'r effaith a gafodd ar dirlun Cemlyn.	Tynnu sylw at y nodweddion ar y safle fel y wal ddwbl a'r gored ym Mryn Aber, y siediau glo ar y Trwyn ac adeiladau'r fferm ym Mhlas Cemlyn. Egluro sut a pham y crëwyd y lag_n. Yn y dosbarth, gall y disgyblion ysgrifennu cofnod dyddiadur dychmygol, diwrnod ym mywyd naill ai deulu o ffermwyr / pysgotwyr neu deulu Capten Hewitt.	Papur a phensiliau.
Pwy sy'n gweithio yng Nghemlyn yn awr a beth maent yn ei wneud? Pwy sy'n ymweld â'r ardal a pham (Gw)	Dysgu am y gymuned leol a deall gwaith y warchodfa a'r ardal leol. Gweld pwysigrwydd cadwraeth.	Os yn bosibl, cyflwyno **warden(iaid)** YNGC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar y safle a gwahodd y disgyblion i holi cwestiynau am eu gwaith a'u trefn o ddydd i ddydd. Gwylio ymwelwyr eraill (e.e. pobl yn mynd â'u c_n am dro, gwylwyr adar) neu bobl yn gweithio ar y tir amaethyddol gerllaw.	
Pa bwysigrwydd all ei gael i wahanol bobl (S) (AG)	Cyflwyno'r syniad o le yn lle arbennig i bobl am wahanol resymau, yn arbennig, ffynhonnell o heddwch ac ysbrydoliaeth.	Trafod perthynas pobl gyda natur. Rhannu enghreifftiau o waith creadigol sy'n cysylltu harddwch ac ysbryd naturiol.	Yr enghreifftiau a ddefnyddir yn cynnwys y gerdd *Sea-watching** gan R.S. Thomas (a arferai ymweld yn aml â Chemlyn), a darn o gerddoriaeth linynnol wedi'i gyfansoddi gan Bethan Roberts, sef *Trwyn Cemlyn*, wedi'i ysbrydoli gan yr ardal. Mae **Birdsong*, casgliad gan Dewi Roberts, yn cynnwys y darn hwn a sawl darn arall cysylltiedig ag adar gan ysgrifenwyr o Gymru (a gyhoeddwyd gan Seren).
Sut arall mae profi lle fel Cemlyn (S)	Defnyddio'r pum synnwyr i deimlo'r lle ac annog y disgyblion i feddwl sut mae'n gwneud iddynt deimlo.	Ymarferion ar y safle e.e. Eistedd am 60 eiliad gyda'r llygaid ar gau yn gwrando, arogli a defnyddio pob synnwyr, troi yn araf 360° I sylwir ar nodweddion y tirlun, y lliwiau, y tywydd a'r bywyd gwyllt. Ailadrodd yr ymarferion yn y dosbarth gan ddefnyddio'r cof a'r dychymyg. Disgrifiadau ysgrifenedig neu lafar a mynegiant i ddilyn.	Dalennau gwaith a phensiliau.